



COLEG Sir Benfro
Pembrokeshire COLLEGE

Cefnogi Dysgwyr ag Anghenion Dysgu Wrth bontio i'r Coleg

2023-2024

Credwch **FWY**. Dysgwch **FWY**. Byddwch **FWY**.






Mae gan Goleg Sir Benfro Dîm Pontio Cymorth Dysgu penodedig a fydd yn darparu cymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i'ch helpu i symud i amgylchedd y Coleg.

Bydd un o'r tîm yn:

- mynychu Adolygiad Blynyddol neu Adolygiad Pontio eich Ysgol ac yn darparu gwybodaeth am ddarpariaeth dysgu ychwanegol (DDY) y Coleg ac yn cynnig cyngor ac arweiniad ar ddewisiadau cwrs y Coleg;
- gweithio gyda chi, eich ysgol, rhieni, gofawlyr, a Gyrfa Cymru i sicrhau bod gennym y wybodaeth gywir am y ffordd orau i'ch cefnogi yn ystod eich cyfnod pontio a derbyn i'r Coleg;
- cynnig ymweliad pontio unigol neu grŵp bach â'r Coleg i chi;
- gofyn i chi am eich dymuniadau a'ch dyheadau ar gyfer eich dyfodol;
- efallai eich arsylwi yn eich ystafell ddosbarth yn yr ysgol i asesu eich anghenion cymorth dysgu;
- trafod sut bydd eich anghenion cymorth dysgu yn cael eu diwallu pan fyddwch yn dod i'r Coleg;
- eich helpu i wneud cais i'r Coleg a'ch cefnogi drwy'r broses dderbyn;
- rhoi cyngor i chi ar y cludiant sydd ar gael a'r broses ymgeisio;

Yr hyn y byddwn yn ei wneud parad...

- darparu dolenni i wneud cais am gymorth ariannol i'ch helpu yn ystod eich cwrs;
- rhoi dyddiadau Digwyddiadau Agored y Coleg, Diwrnodau Pontio a Chyswllt i chi;
- darparu cyswllt penodol i chi yn y Coleg a fydd yn gweithio gyda chi i ddatblygu eich pointio personol i'r Coleg;
- helpu i gynhyrchu neu ddiweddarau eich Proffil Un Tudalen (OPP);
- eich helpu i wneud cais am drefniadau mynediad arholiadau;
- eich cefnogi i gael mynediad i gyfleusterau ac offer y Coleg;
- eich cyfeirio at gyngor ar drafnidiaeth, iechyd, cymorth ariannol a gwasanaethau myfyrwyr;
- darparu mynediad i ystod eang o dechnoleg gynorthwyol ac addasol, e.e. pen darllen, gliniaduron, meddalwedd lleferydd i destun, ffotosymbolau;
- eich cefnogi trwy gydol eich amser yn y Coleg; a
- eich cefnogi gyda'ch camau nesaf unwaith y byddwch yn barod i adael y Coleg.



Er mwyn gwneud hyn, byddwn yn gofyn am eich caniatâd i'r ysgol rannu eich gwybodaeth feddygol neu gymorth dysgu fel y gallwn sicrhau y gallwn eich cefnogi'n llawn yn ystod eich rhaglen Coleg. Bydd gofyn i chi lenwi holiadur cymorth dysgu fel rhan o'ch cais am gwrs.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am y cymorth dysgu sydd ar gael yn y Coleg, neu os ydych am drefnu ymweliad pontio, anfonwch e-bost: learningsupport@pembrokeshire.ac.uk.

I gael rhagor o wybodaeth am ein Cymorth ADY, ein Darpariaeth Dysgu Cyffredinol a'n Darpariaeth Dysgu Ychwanegol, ewch i'n tudalen Gwybodaeth Cymorth Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiant ar y wefan.





**Angen Mwy o
Wybodaeth?**

MWYBYRDDI / S
WR / STUDENT



Am ragor o wybodaeth, neu ddiweddariadau ar yr hyn sy'n digwydd yn y Coleg, edrychwch ar ein gwefan neu dilynwch ni ar gyfryngau cymdeithasol:

-  pembrokeshire.ac.uk
-  [@PembsCollege](https://twitter.com/PembsCollege)
-  [pembscollege](https://www.instagram.com/pembscollege)
-  [@pembscollege](https://www.facebook.com/pembscollege)
-  info@pembrokeshire.ac.uk
-  01437 753 000

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, neu os hoffech drefnu ymweliad, anfonwch e-bost: admissions@pembrokeshire.ac.uk

Edrychwn ymlaen at gefnogi eich pontio llwyddiannus i Goleg Sir Benfro.

Ar ein gwefan byddwch hefyd yn dod o hyd i wybodaeth am: drafnidiaeth, cymorth ariannol, Darpariaeth Dysgu Cyffredinol (ULP) y Coleg a Darpariaeth Dysgu Ychwanegol (DDY).

Ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu mwy cymhleth ac sy'n dymuno datblygu eu sgiliau bywyd, ewch i'n [Hacademi Sgiliau Bywyd](#).

Welwn ni chi cyn bo hir



COLEG Sir Benfro
Pembrokeshire COLLEGE

Cysylltwch...



@PembsCollege



pembscollege



@pembscollege



info@pembrokeshire.ac.uk



01437 753 000



pembrokeshire.ac.uk

COLEG SIR BENFRO

Merlins Bridge
Hwlfordd
Sir Benfro
SA611SZ